# Addasiadau Tai

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Medi 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i’r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae’r hawlfraint ynddo’n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda’r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o’n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 8 |
| Ein canfyddiadau | 10 |
| Argymhellion | 17 |
| Atodiadau | 19 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 20 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 22 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn cynllunio ac yn darparu addasiadau tai i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros yn eu cartrefi.

2 Yn 2002, fe drosglwyddodd y Cyngor ei stoc dai i gymdeithas dai. Mae hyn yn golygu bod y broses o ddarparu addasiad tai'n wahanol ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai o'i gymharu â pherchen-feddianwyr a phobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae addasiadau tai'n golygu newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i blant, pobl ifanc ac oedolion symud o gwmpas. Gallant helpu i atal cwympiadau neu leihau neu leddfu'r angen am ofal ffurfiol a derbyniadau diangen i leoliadau gofal. Gallai enghreifftiau o addasiadau tai gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod;
- lledu drysau fel bod lle i gadeiriau olwyn fynd drwyddynt.

4 Mae'r Cyngor yn asesu anghenion pobl i benderfynu a ydynt yn gymwys i gael cymorth. Os ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau, megis addasiadau tai neu offer, i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros gartref.

5 Mae’n allweddol bod addasiadau’n cael eu darparu cyn gynted â phosibl i helpu pobl i ddal i fyw gartref yn ddiogel ac yn annibynnol. Mae oedi’n golygu nad yw pobl yn gallu cyflawni tasgau beunyddiol neu fod risg y gallent gwympo a bod angen cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill.

6 Fe gyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar addasiadau tai ledled Cymru yn 2018. Canfuom system orgymhleth a oedd yn atgyfnerthu anghydraddoldeb, yn hytrach nag ymdrin ag anghydraddoldeb, o ran darparu addasiadau.

7 Yn 2018, fe gyhoeddom ni adroddiad ar safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau ar grantiau cyfleusterau i’r anabl yn y Cyngor. Yn yr adroddiad hwn fe wnaethom argymell bod y Cyngor yn cryfhau:

- cynllunio strategol;
- gwerthuso a dysgu;
- gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau;
- y modd y goruchwylir contractwyr ac y diogelir defnyddwyr;
- trefniadau llywodraethu a rheolaeth ar y cyfan.

## Yr hyn yr ydym wedi’i ganfod

8 Mae perfformiad y Cyngor o ran darparu addasiadau tai wedi bod yn bryder am nifer o flynyddoedd. Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwneud newidiadau i’r gwasanaeth ers ein hadroddiad yn 2018 ac y cyflwynwyd adroddiadau rheolaidd i’r Aelodau. Fodd bynnag, ac eithrio gwelliant bach mewn dau fath o addasiadau ar gyfer 2025-26 mae perfformiad yn dal i ddirywio. Mae trigolion Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn aros am dros ddwy flynedd ar gyfartaledd am addasiad.

9 Er ei fod wedi cynyddu ei gyllideb gyfalaf yn ddiweddar, ar adeg ein gwaith maes ni, nid oedd gan y Cyngor gynllun eglur i ymdrin â'i berfformiad. Mae gwendidau mewn cynllunio strategol a darparu adnoddau, dysgu a gwerthuso, a diffyg cydgysylltu rhwng staff ar wahanol gamau'r broses yn effeithio ar effeithiolrwydd y gwasanaeth. Yn seiliedig ar hanes y Cyngor yn y maes hwn a'r cynnydd hyd yma o ran darparu addasiadau tai, nid oes gennym hyder yng ngallu'r Cyngor i ymdrin yn gyflym â hyn. Ers ein gwaith maes, mae'r Cyngor yn datblygu cynllun i ymdrin â'n canfyddiadau.

10 Rydym wedi crynhoi'r prif gryfderau a meysydd ar gyfer gwella isod:

**Cryfderau**

- Mae gan y Cyngor un pwynt cyswllt ar gyfer ymgeiswyr.
- Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad ar gyfer amseroldeb a'r gost ar y cyfan.
- Mae gan y Cyngor reolaethau sicrhau ansawdd a chymeradwyo.
- Mae'r Cyngor wedi gwella ei system TG.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno fframwaith contractwyr.

**Meysydd ar gyfer gwella**

- Mae amser darparu'r Cyngor yn gwaethygu ac ar hyn o bryd mae'n cymryd dwy flynedd i ddarparu addasiad ar gyfartaledd.
- Nid yw'r Cyngor yn deall y galw am addasiadau yn y tymor canolig a hir.
- Nid oes gan y Cyngor wybodaeth gyfoes ar-lein i helpu defnyddwyr y gwasanaeth i ddeall y broses.
- Nid yw'r Cyngor yn ymgysylltu â grwpiau rhanbarthol i ddeall sut y mae materion yn cymharu ac i ddysgu o'u profiadau.
- Nid oes gan y Cyngor rhyw lawer o ddealltwriaeth pa un a yw'n cyflawni gwerth am arian.

# Yr hyn yr ydym yn ei argymell

11 Rydym wedi cyflwyno pum argymhelliad i’r Cyngor sy’n ymwneud â’r canlynol:

- cynnal adolygiad o’r gwasanaeth o ddechrau’r broses i’w diwedd i ddeall yr hyn sy’n achosi oedi ac ymdrin â hynny;
- gwella dealltwriaeth am y galw am addasiadau tai yn awr ac yn y dyfodol;
- datblygu cynllun cyflawni cydgysylltiedig;
- sicrhau bod polisïau wedi’u diweddaru;
- ymgysylltu’n fwy systematig â grwpiau a phartneriaid rhanbarthol i gymharu perfformiad a dysgu o arfer da;
- gwerthuso gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar y cyfan yn erbyn targed y Cyngor.

| Blwyddyn | Cyfartaledd | Targed |
|---|---|---|
| 2019-20 | 436 | 240 |
| 2020-21 | 553 | 240 |
| 2021-22 | 422 | 240 |
| 2022-23 | 434 | 240 |
| 2023-24 | 553 | 210 |
| 2024-25 | 799 | 542 |
| 2025-26 | 838 | 542 |

Cyfanswm nifer yr addasiadau a gwblhawyd ac a ardystiwyd.

2019-20 – 157

2020-21 – 75

2021-22 – 148

2022-23 – 174

2023-24 – 230

2024-25 – 238

2025-26 – 205

Cyfanswm buddsoddiad y Cyngor mewn addasiadau tai rhwng 2020-21 a 2025-26 – £13.5 miliwn

Gwariant (Cyfalaf y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y Gronfa Tai â Gofal a HWYLUSO)

2023-24: £3.2 miliwn

2024-25: £2.7 miliwn

2025-26: £2.4 miliwn

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu byw'n fwy annibynnol o ganlyniad i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn eu cartref.

2023-24: 98%

2024-25: 99%

# Ein canfyddiadau

## Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd addasiadau tai ond nid oes ganddo ddarlun eglur o'r galw yn y dyfodol na chynllun i wella'r modd y darperir y gwasanaeth

### Deall y galw

12 Mae'r Cyngor yn deall y galw presennol am addasiadau tai trwy atgyfeiriadau a rhestrau aros. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud gwaith dadansoddi i ddeall y galw yn y dyfodol y tu hwnt i gydnabyddiaeth gyffredinol bod y boblogaeth yn heneiddio. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor wedi asesu'r effaith y bydd ei ysgol arbennig newydd a'r datblygiad tai cyfagos yn ei chael ar y galw.

13 Mae dealltwriaeth fwy eglur am y galw yn y dyfodol yn hanfodol i helpu'r Cyngor i gynllunio sut y bydd yn ateb y galw hwn, a'r adnoddau y mae eu hangen arno i wneud hynny. Gan bod addasiadau ar gyfer plant yn nodweddiadol yn costio mwy na'r rhai ar gyfer oedolion, byddai dadansoddi'r galw hwn yn ôl oedolion a phlant hefyd yn helpu'r Cyngor i gryfhau sut y mae'n cynllunio ar gyfer y tymor canolig a hir.

### Fframwaith strategol a chynllunio ar gyfer darparu

14 Mae'r Cyngor yn amlygu pwysigrwydd addasiadau tai i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn ei ddogfennau strategol allweddol, gan gynnwys ei Gynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mae agweddau ar ei fframwaith polisi wedi dyddio. Er enghraifft, nid yw wedi diweddaru ei bolisi adnewyddu tai'r sector preifat ac addasiadau ar gyfer pobl anabl ers 2018 a'i bolisi safonau ar gyfer addasiadau a chynhorthwy ers 2010.

15 Ar adeg ein gwaith maes nid oedd gan y Cyngor gynllun cyflawni eglur a oedd yn nodi sut y bydd yn ateb y galw ac yn gwella amseroldeb. Felly yr oedd hi er bod amseroedd darparu'n gwaethygu ar y cyfan, bod perfformiad islaw'r targed a bod Aelodau'n craffu ac yn herio'n barhaus. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dynodi nad oes gan y Cyngor ddull eglur ac effeithiol o gynllunio a gwella'r gwasanaeth.


## Er gwaethaf newidiadau a oedd wedi'u bwriadu i gryfhau'r gwasanaeth, mae amseroedd darparu'n wael ac yn gwaethygu

### Amseroldeb

16 Mae amseroedd darparu wedi bod yn araf am flynyddoedd lawer ac wedi dirywio'n sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Fe arweiniodd COVID-19 at ôl-groniad o geisiadau ac fe ddarparodd y Cyngor ffigyrau nad oeddent yn cynnwys y ceisiadau hynny. Ond roedd y data hwn yn dangos bod perfformiad wedi parhau i waethygu ar y cyfan yn ystod 2024-25 a 2025-26. Roedd amseroedd aros cyfartalog yn hwy nag yn y cyfnod cyn pandemig COVID-19. Mae'r Cyngor yn cymryd dros ddwy flynedd ar gyfartaledd i gwblhau addasiad. Mae ei berfformiad wedi bod ymhell islaw'r targed am y saith mlynedd ddiwethaf (**Arddangosyn 1**). Er bod addasiadau mwy cymhleth yn gallu effeithio ar hyn, mae amseroedd darparu ar gyfer mathau penodol o waith wedi bod yn faith. Yn 2025-26, fe gymerodd fwy na thair blynedd ar gyfartaledd i ddarparu ramp neu estyniad, a mwy na blwyddyn i ddarparu lifft risiau.

17 Mae'r graddfeydd amser hyn yn codi pryderon sylweddol ynghylch effeithiolrwydd y gwasanaeth. Gall amseroedd aros hir effeithio ar iechyd ac annibyniaeth rhywun a gallant gynyddu'r risg o gwympiadau, gan roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

**Arddangosyn 1: Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl**




Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Newidiadau i gryfhau'r modd y darperir addasiadau

18 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cyflwyno newidiadau sydd wedi'u bwriadu i wella'r gwasanaeth:

- dod â'r gwasanaeth yn ôl yn fewnol ar ôl ystyried trefniadau amgen;
- cyflwyno system TG newydd i wella'r modd y mae data'n cael ei reoli a'i oruchwylio;
- penodi gweithiwr achos Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i ddarparu un pwynt cyswllt ar gyfer ymgeiswyr;
- cyflwyno fframwaith contractwyr i gyflymu gwaith, cryfhau rheolaeth ar ansawdd a lleihau costau;


- defnyddio cyllid yn ôl disgresiwn ar ben Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i helpu i dalu costau addasiadau cymhleth, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc.

19 Fodd bynnag, fel a enghreifftir uchod, nid yw'r rhain wedi helpu i wella amseroedd darparu.

20 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi gwariant cyfalaf y Cyngor ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ers 2020-21. Clywsom yn ystod gwaith maes fod y Cyngor, mewn rhai blynyddoedd, heb wario ei gyllideb Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn llawn. Felly yr oedd hi er gwaethaf y galw parhaus ac er bod perfformiad yn dirywio. Mae hyn yn dynodi nad yw'r Cyngor wedi gallu sicrhau'n gyson bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i ddarparu addasiadau.

21 Mae'r Cyngor wedi cynyddu ei gyllideb gyfalaf ar gyfer addasiadau tai £500,000 y flwyddyn dros holl gyfnod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (2026-27 i 2029-30). Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y deilliodd y Cyngor y ffigwr hwn gan nad yw wedi modelu'r galw i adnabod y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd a'r adnoddau y bydd eu hangen i ateb y galw. O ystyried bod perfformiad yn gwaethygu, byddai o fudd i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r gwasanaeth o ddechrau'r broses i'w diwedd i ddeall pam fod graddfeydd amser yn gwaethygu a sut y bydd yn ymdrin â hyn ac yn ateb y galw.

### Arddangosyn 2: Crynodeb o Wariant Cyfalaf ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl




Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Nodiadau:

[1] Rhwng 2023-24 a 2025-26, cafodd oddeutu £0.2 miliwn o gyllid ei ddyrannu bob blwyddyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cymru trwy ei Chronfa Tai â Gofal a ddosbarthwyd trwy Bartneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau a ddangosir yn **Arddangosyn 1**.

[2] Rhwng 2020-21 a 2025-26, cafodd y Cyngor gyllid HWYLUSO gan Lywodraeth Cymru hefyd. Roedd hwn yn amrywio o £0.18 miliwn yn 2020-21 i £0.38 miliwn yn 2025-26.

## Gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth ac ymgysylltu â hwy

22 Nid yw'r Cyngor yn darparu gwybodaeth gyfoes i helpu defnyddwyr y gwasanaeth i ddeall y broses addasiadau tai yn glir. Mae ei wefan yn nodi'r opsiynau sydd ar gael a throsolwg fer o grantiau ac yn darparu manylion cyswllt e-bost a ffôn. Fodd bynnag, mae dogfennau ategol, megis y Safon ar gyfer Addasiadau a Chynhorthwy, wedi dyddio ac nid ydynt yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru gan gynnwys manylion grantiau yn ôl disgresiwn ac atgyfeiriadau ar gyfer plant.

23 Mae’r Cyngor yn ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth ar gamau allweddol i ddeall eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys trwy asesiadau therapyddion galwedigaethol a’r gweithiwr achosion Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl sy’n gweithredu fel y pwynt cyswllt unigol. Fodd bynnag, clywsom yn ystod gwaith maes nad yw staff wastad yn rheoli trosglwyddiadau’n esmwyth rhwng camau, a bod barn broffesiynol wahanol yn gallu cyfrannu at oedi a lleihau effeithiolrwydd y gwasanaeth.

## Mae perfformiad ar y cyfan yn dirywio er gwaethaf monitro a chraffu parhaus, ac nid oes gan y Cyngor ryw lawer o ddealltwriaeth am werth am arian

### Rheoli perfformiad

24 Mae’r Cyngor wedi bod yn darparu adroddiadau rheolaidd am addasiadau tai i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu Goruchwyliaeth Gorfforaethol, a’r Cabinet dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae’r rhain yn cwmpasu’r galw, costau ac amseroldeb cyfredol.

25 Fodd bynnag, mae amseroldeb darparu addasiadau wedi parhau i ddirywio ar y cyfan. Mae hyn yn dynodi, er bod aelodau wedi craffu ar berfformiad ac wedi ei herio, nad yw hyn yn trosi’n welliannau parhaus mewn perfformiad eto.

26 Mae’r Cyngor yn monitro graddfeydd amser ar gyfartaledd ar gyfer cwblhau addasiadau tai ar y cyfan yn ogystal ag ar gyfer cwblhau addasiadau bychain, canolig a mawr. Fodd bynnag, nid yw wedi asesu ble y mae’r problemau yn y broses i adnabod sut y gall ymdrin â’r rhain.

## Deall perfformiad partneriaid

27 Cyfyngedig yw ymwneud y Cyngor â darparu addasiadau tai ar gyfer tenantiaid sy’n byw mewn cartrefi sy’n eiddo i’r gymdeithas dai. Nid yw’r Cyngor yn monitro pa mor gyflym y mae cymdeithasau tai’n cwblhau’r gwaith na pha un a ydynt yn archwilio addasiadau a gwblhawyd. Felly nid oes ganddo ddarlun llawn o berfformiad i helpu i werthuso a yw’n cyrraedd ei nod i gefnogi trigolion agored i niwed, beth bynnag fo’u sefyllfa o ran tai.

## Dysgu a gwerthuso effaith

28 Fe ymgysylltodd y Cyngor â chynghorau eraill i ddysgu o’u profiad pan ddatblygodd ei fframwaith contractwyr. Fodd bynnag, nid yw’n ymgysylltu’n rheolaidd â phartneriaid iechyd a thai ynghylch addasiadau tai. Hefyd, nid yw’n ymgysylltu â’r grŵp rhwydwaith Addasiadau Tai rhanbarthol. Felly, nid yw’r Cyngor yn gwneud y gorau o’r sianeli hyn i drafod materion cyffredin ac adnabod ffyrdd o wella.

29 Cyn talu i’r contractwr, mae’r Cyngor yn gwirio bod ansawdd yr addasiad yn cyrraedd safonau y cytunwyd arnynt. Mae hefyd yn casglu adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn gynted ag y caiff y gwaith ei gwblhau ac mae lefelau boddhad yn gyson yn uchel.

30 Mae’r Cyngor wedi adolygu costau ei gontractwyr fel rhan o’i fframwaith contractwyr, ond nid yw’n mynd ati’n weithredol i asesu a yw ei wasanaeth addasiadau tai’n cyflawni gwerth am arian. Er enghraifft, er ei fod yn gofyn rhai cwestiynau sy’n seiliedig ar ddeilliannau pan fo gwaith yn cael ei gwblhau, nid yw’n cynnal ymholiadau dilynol unwaith y mae unigolion wedi cael y cyfle i ddefnyddio’r addasiadau’n iawn i wirio bod yr addasiadau’n cyflawni’r deilliannau bwriadedig a nodwyd yn y cynllun gofal gwreiddiol. Hefyd, nid yw wedi asesu a yw addasiadau’n lleihau dibyniaeth ar wasanaethau eraill, megis yn helpu i osgoi derbyniadau i’r ysbyty.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor gynnal adolygiad trylwyr o'r gwasanaeth o ddechrau'r broses i'w diwedd i ddeall yr hyn sy'n achosi oedi a chymryd camau gweithredu wedi'u targedu i wella'r modd y darperir y gwasanaeth a'i effeithiolrwydd (**paragraff 21**).

**A2** Dylai'r Cyngor wella ei ddealltwriaeth am y galw am addasiadau tai yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys effaith debygol newid demograffig a'r galw o blith plant a phobl ifanc, er mwyn iddo allu cynllunio ei adnoddau'n fwy effeithiol (**paragraff 12**).

**A3** Dylai'r Cyngor ddatblygu fframwaith strategol cydgysylltiedig a chyfoes ar gyfer addasiadau tai. Dylai hyn gynnwys diweddaru polisïau allweddol a bod â chynllun cyflawni eglur sy'n nodi blaenoriaethau, camau gweithredu a deilliannau bwriadedig (**paragraff 15**).

**A4** Dylai'r Cyngor ymgysylltu'n fwy systematig â grwpiau rhanbarthol a phartneriaid perthnasol i ddeall a chymharu materion a dysgu o brofiadau eraill (**paragraff 28**).

**A5** Dylai'r Cyngor werthuso a yw ei drefniadau addasiadau tai'n dwyn gwerth am arian, gan gynnwys trwy gysylltu cost lawn cymorth, amseroldeb a deilliannau (**paragraff 30**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a yw trefniadau’r Cyngor ar gyfer addasiadau tai’n cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull y Cyngor, y modd y mae’n darparu addasiadau tai a’i drefniadau monitro.

Fe gwblhaom ni’r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn ym mis Mawrth 2026.

## Cwestiynau

Fe wnaeth yr archwiliad ddefnyddio’r cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gwybodus ac eglur o ddarparu addasiadau tai sy’n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw’r Cyngor yn cyflawni ei ddull o ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro’r cynnydd a’r effaith wrth ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

## Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru yn 2018 ar Addasiadau Tai i ddatblygu’r meini prawf archwilio. Fe gawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i gael rhagor o ddealltwriaeth am addasiadau tai.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau a oedd yn ymwneud â’r broses addasiadau tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion ac aelodau etholedig allweddol sy’n rhan o’r broses addasiadau tai.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys cyfweliadau gyda rhanddeiliaid eraill sy’n rhan o ddarparu addasiadau tai, megis byrddau iechyd lleol, contractwyr, Gofal Ychwanegol, a chymdeithasau tai. Ni wnaethom gysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth ychwaith i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Addasiadau** | Caiff addasiadau eu categoreiddio'n Fân Gymhorthion fel canllawiau a thapiau â liferi, addasiadau Canolig fel cawodydd â mynediad gwastad, lifftiau grisiau, rampiau, a lledu drysau, neu addasiadau Mawr fel estyniadau i adeiladau. Mae gwasanaethau arbenigol fel Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu ymateb cyflym ar gyfer gwaith llai. |
| **Asesiad o anghenion** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod gan unrhyw un y gall fod arnynt angen gofal neu gymorth hawl i asesiad o'u hanghenion. Mae'r broses hon wedi'i bwriadu i adnabod yr hyn sydd o bwys i'r person a pha help all fod ei angen arnynt i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant. |
| **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** | Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn helpu i dalu am newidiadau i gartref fel bod preswylwyr yn gallu byw yno'n fwy diogel. Mae'r rhain yn seiliedig ar brawf modd ar gyfer addasiadau mawr oni bai eich bod yn ymgeisio ar ran plentyn dan 18. Gall y Grant ddarparu cyllid hyd at £36,000. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwerth am Arian** | Mae a wnelo gwerth am arian â pha un a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r deilliannau bwriadedig am y pris gorau. Mae gwerth am arian yn gysylltiedig fel arfer â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel:<br>• Darbodaeth – Cael y fargen iawn trwy sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig, am y gost isaf posibl.<br>• Effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn trwy wneud y gorau o'r mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.<br>• Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn trwy gyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy.<br>Felly mae a wnelo Gwerth am Arian nid dim ond â chostau, ond ag ansawdd ac effeithiolrwydd y deilliannau a gyflawnir am yr arian a gaiff ei wario.<br>Mae gan gynghorau ddyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gwerth am arian. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i adolygu i ba raddau y maent yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| **HWYLUSO** | Mae mân addasiadau sy'n costio llai na £1,000 yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim a heb brawf modd fel arfer i bobl hŷn neu'r rhai y mae arnynt angen gwneud newidiadau i'w cartref oherwydd anabledd. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid grant HWYLUSO i awdurdodau lleol fel adnodd hyblyg y gellir ei ddefnyddio i dalu am addasiadau bach a chanolig. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Y Gronfa Tai â Gofal** | Ffrwd cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a ddefnyddir gan gynghorau i ddatblygu tai sy’n cefnogi anghenion gofal yw’r Gronfa Tai â Gofal. Mae wedi’i bwriadu i leihau dibyniaeth ar addasiadau adweithiol fel Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.